# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 4 Mehefin 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda

(202)v2

**1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd (45 munud)**

Gweld y Cwestiynau

**2 Cwestiynau i'r Gweinidog Tai ac Adfywio (45 munud)**

Gweld y Cwestiynau

**3 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynghylch yr Ymchwiliad i rôl Cymru yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr UE (60 munud) NDM5518 David Melding (Canol De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar ei ymchwiliad i rôl Cymru yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr UE, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mawrth 2014.

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Ymateb Llywodraeth Cymru [Saesneg yn unig]

**4 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch gwaith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (60 munud)**
**NDM5519 David Rees (Aberafan)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar waith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mawrth 2014.

Noder: Gosodwyd ymateb y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Mai 2014.

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Ymateb Llywodraeth Cymru

**5 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**
**NDM5520 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd yr economi ddigidol, ac yn datblygu seilwaith i'w chynnal.

2. Yn gresynu at y ffaith bod ardaloedd yng Nghymru o hyd lle nad oes fawr ddim darpariaeth band eang neu 3G, os o gwbl, a'r effaith andwyol y mae hyn yn ei chael ar fusnesau ac unigolion.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi manylion ynghylch sut y bydd y £12 miliwn o’r cyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU ar gyfer Cyflymu Cymru yn cael ei ddyrannu.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn gresynu at y ffaith mai Cymru sydd â'r gyfran fwyaf o safleoedd mewn mannau gwan posibl ac mai yng Nghymru y mae'r argaeledd isaf o ran gwasanaethau band eang cyflym iawn o'i gymharu â gweddill y DU.

**Gwelliant 2 - Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnwys pwynt 3 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn gresynu at y penderfyniad i gynnig gwasanaeth band eang Ffeibr i'r Cabinet yn hytrach na gwasanaeth Ffeibr i'r Safleoedd.

**Gwelliant 3 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi cynlluniau ar waith i gyflwyno band eang cyflym iawn i'r 4% o safleoedd na fyddant yn cael eu gwasanaethu gan ymrwymiadau presennol.

**Gwelliant 4 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi ac annog busnesau i fanteisio ar y cyfleoedd y mae cysylltedd digidol yn eu cynnig.

**Gwelliant 5 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i gynllun cyflwyno er mwyn cael darpariaeth 4G lawn ledled Cymru.

**Gwelliant 6 - Aled Roberts (North Wales)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU i roi diwedd ar honiadau camarweiniol gan gwmnïau band eang sy’n gweld cwsmeriaid yng Nghymru yn talu am wasanaeth cyflym nad ydynt yn gallu ei gael.

**Cyfnod Pleidleisio**

**6 Dadl Fer (30 munud)**
**NDM5517 Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru)**

Atebolrwydd rheolwyr GIG Cymru

Archwilio rôl a chyfrifoldeb byrddau a swyddogion y GIG o ran cyflenwi gofal diogel ac effeithiol yng Nghymru.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 10 Mehefin 2014